**LC372**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ei gwneud yn ofynnol bod fforymau mynediad lleol yn cael eu sefydlu gan awdurdodau priffyrdd lleol neu, mewn parc cenedlaethol, gan awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth sefydlu fforymau a'u gweithredu.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi. Os dymunir ymdrin ag unrhyw un ohonynt mewn memorandwm cywiriadau, cadarnheir y byddai hynny'n briodol.

**Rheoliad 2(1) – "tir mynediad"**

Mae hwn yn cyfeirio'r darllenydd at adran 95(3). Ond y cyfan y mae adran 95(3) yn ei ddweud yw bod i "access land" yr un ystyr ag yn Rhan 1. Mwy boddhaol fyddai i'r diffiniad gyfeirio'r darllenydd at adran 1(1).

**Rheoliad 5(3)**

Mae "cyn gwneud hynny" fel pe bai'n ailadrodd y gofyniad yn y geiriau agoriadol "Cyn bod".

**Rheoliad 6(2)(b)**

Mae hwn yn cynnwys y gofyniad –

> “rhaid i’r awdurdodau … benodi …dim mwy na chyfanswm o ddau aelod o’r fforwm sydd naill ai’n swyddogion neu’n aelodau o’r awdurdodau penodi.”

Ond nid yw’n ailadrodd y gwaharddiad pendant ar benodi mwy na’r ffigur a nodwyd, fel y gwnaed o’r blaen gyda’r gofyniad “ni all benodi” ac “ni allant benodi” ym mharagraffau (1) a (2)(a).

**Rheoliad 12(6)**

Er mwyn ymdrin â phob posibilrwydd, mae’n ymddangos y dylai “dau ymgeisydd” fod yn “dau neu fwy o ymgeiswyr”.

**Rheoliad 14(1)(dd)**

Dylai ‘yn gael’ ddarllen ‘yn cael’.

**Rheoliad 16(1)**

Mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod penodi baratoi “a chymeradwyo” adroddiad blynyddol.  Ni ddeellir yn iawn pam y dylai fod yn ofynnol i awdurdod gymeradwyo’i adroddiad ef ei hun.

Mick Bates AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

27 Tachwedd 2001